# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 1 Ebrill 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(191)v6

1 **Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

2 **Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

3 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau**

**NDM5486 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol William Graham (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Mohammad Asghar (Ceidwadwyr Cymreig).

4 **Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad Llywodraeth Cymru o ganlyniadau TGAU Saesneg mis Ionawr 2014 (45 munud)**

5 **Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cynnydd o ran Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru (30 munud)**
**Dogfen Ategol**
Ymgynghori: Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020

6 **Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014 (15 munud)**

**NDM5432 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2014.

Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2014.

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol
Dogfen Esboniadol DEFRA (Saesneg yn unig)
Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014 (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

7 **Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru) (60 munud)**

**NDM5479 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru).

Gosodwyd Bil Tai (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 18

Tachwedd 2013.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y Bil Tai (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 21 Mawrth 2014.

**Dogfennau Ategol**
Bil Tai (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw Bil Tai (Cymru) yn rhoi sylw i'r cyflenwad tai cymdeithasol.

8 **Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Tai (Cymru) (5 munud)**

**NDM5480 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Tai (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 2 Ebrill 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 27 Mawrth 2014 i'w hateb ar 1 Ebrill 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithrediad Llywodraeth Cymru o'r Polisi Amaeth Cyffredin diwygiedig yng Nghymru? OAQ(4)1600(FM)**W TYNNWYD YNOL**

**2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi canol trefi yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1589(FM)

**3. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella rôl menywod yn economi Cymru? OAQ(4)1598(FM)

**4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cymorth Llywodraeth Cymru i bobl â dementia yng Nghymru? OAQ(4)1602(FM)

**5. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru?  OAQ(4)1597(FM)

**6. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithrediad uned iaith Gymraeg y Llywodraeth? OAQ(4)1596(FM)**W**

**7. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o wasanaethau newyddenedigol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)1591(FM)**W**

**8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith costau byw ar deuluoedd yng Nghymru? OAQ(4)1590(FM)

**9. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch adleoli Trident i Gymru? OAQ(4)1606(FM)

**10. Julie James (Gorllewin Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y trefniadau trawsffiniol ar gyfer gwasanaethau iechyd? OAQ(4)1601(FM)

**11. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw'r amserlen ar gyfer datblygu map newydd yng nghyswllt darparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer llywodraeth leol? OAQ(4)1605(FM)

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dargedau Estyn o ran presenoldeb yn yr ysgol yng Nghymru? OAQ(4)1604(FM)

**13. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)1607(FM)**W**

**14. Leighton Andrews (Rhondda):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru hyd 2016? OAQ(4)1592(FM)

**15. Sandy Mewies (Delyn):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r ffigurau digartrefedd diweddaraf yng Nghymru? OAQ(4)1599(FM)

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Mawrth 2014 i'w hateb ar 1 Ebrill 2014

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. **Christine Chapman (Cwm Cynon)**: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog mwy o bobl yng Nghymru i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol? OAQ(4)0139(CS)

**2.Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog mwy o ferched i gymryd rhan mewn chwaraeon yn Llanelli? OAQ(4)0149(CS)**W**

3. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau ar gyfer datblygu chwaraeon merched yng Nghymru yn 2014? OAQ(4)0140(CS)

4. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ennyn diddordeb yn y celfyddydau ymhlith pobl ifanc? OAQ(4)0151(CS)**W**

5. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo chwaraeon lleiafrifol yng Nghymru? OAQ(4)0141(CS)

6. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei drafodaethau gydag arweinwyr awdurdodau lleol ynglŷn â strategaeth a pholisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol yng Nghymru? OAQ(4)0148(CS)

**7. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo safleoedd treftadaeth ledled Cymru? OAQ(4)0142(CS)

**8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon yn Sir Benfro? OAQ(4)0137(CS)

**9. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r defnydd o feicio ymhlith disgyblion Cymru? OAQ(4)0145(CS)**W**

**10. David Rees (Aberafan):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo mwy o weithgarwch chwaraeon gan ferched? OAQ(4)0150(CS)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol? OAQ(4)0143(CS)

**12. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer archifau yng Nghymru? OAQ(4)0138(CS)

**13. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymagwedd Llywodraeth Cymru at Lythrennedd Corfforol? OAQ(4)0147(CS)

**14. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth pierau glan môr i'r amgylchedd hanesyddol? OAQ(4)0144(CS)
**TYNNWYD YN OL**

**15. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Sut y mae'r Gweinidog yn gweithio gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i sicrhau effeithiolrwydd polisïau Diwylliant a Chwaraeon o ran trechu tlodi? OAQ(4)0146(CS)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Toriad: Dydd Llun 7 Ebrill 2014 - dydd Sul 27 Ebrill 2014**
**Dydd Mawrth 29 Ebrill 2014 a dydd Mercher 30 Ebrill 2014**
**Dydd Mawrth 6 Mai 2014 a dydd Mercher 7 Mai 2014**
**Dydd Mawrth 13 Mai 2014 a dydd Mercher 14 Mai 2014**
*********************************************************************

**Dydd Mawrth 29 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Cysoni cymorth cyflogaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (30 munud)
- Dadl: Cymeradwyo 'Cynllun Hawliau Plant drafft 2014' o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (60 munud)
- Dadl: Cynigion ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 (60 munud)
- Dadl: Ail adroddiad Comisiwn Silk ar ddatganoli yng Nghymru (60 munud)

**Dydd Mercher 30 Ebrill 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 6 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Cyfleoedd ar gyfer Buddsoddiad Newydd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon: Adroddiad y Farwnes Kay Andrews ar Ddiwylliant a Thlodi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: y wybodaeth ddiweddaraf am Bennod 7 o'r Rhaglen Lywodraethu, "Cymunedau Mwy Diogel" (30 munud)

**Dydd Mercher 7 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 13 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Gweithio mewn Partneriaeth gyda Chymdeithasau Tai (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio (15 munud)

**Dydd Mercher 14 Mai 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)